

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Powys

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015

Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Powys

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Powys wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Mae'r cyngor wedi parhau i weithredu ei gynlluniau gwella drwy ailstrwythuro ac ail-ganolbwyntio'r gweithlu gofal cymdeithasol i blant ac oedolion, adolygu a chryfhau'r broses ddiogelu a'r trefniadau pontio i bobl ag anableddau dysgu, integreiddio ei strwythur rheoli o fewn gwasanaethau iechyd meddwl, a datblygu ei gwasanaeth ailalluogi. Maent yn cael canlyniadau da i bobl sy'n derbyn gwasanaeth ail-alluogi yn ne'r sir, a gobeithir y bydd y gwasanaeth yn y gogledd yn datblygu o ran cryfder a chysondeb. Cafodd datblygiad un pwynt mynediad, dan yr enw Llinell Uniongyrchol Powys, ei sefydlu yn ystod y flwyddyn hefyd gyda lansiad yr ochr gwasanaethau i oedolion ym mis Ebrill 2015 yn dilyn lansio'r ochr gwasanaethau i blant ym mis Hydref 2014.
- 1.2. O fewn gofal cymdeithasol i oedolion, mae'r cyngor wedi llwyddo i gael comisiwn ac aildendr ar gyfer ei wasanaethau byw â chymorth yn ystod y flwyddyn. Mae'r her o sefydlogi'r farchnad gofal cartref wedi bod yn hollbwysig. Roedd hyn yn dilyn yr ymarfer caffael ac ail-dendro a gynhaliwyd ym mis Ebrill/Mai 2014, gan sefydlu pedwar asiantaeth ar gyfer prif ddarparwyr, a therfynu contract un o'r rhain yn dilyn hynny ym mis Medi 2014. Fel darparwr mawr, cafodd hyn effaith gynyddol ar allu'r asiantaethau eraill i gyflawni, ac fe'i dilynwyd gan fethiant ail ddarparwr, a therfyniad trydydd contract o'r ddwy ochr. Mae'r cyngor yn cydnabod yr effaith sylweddol mae hyn wedi'i gael ar bobl Powys sy'n derbyn gofal cartref. Gadawodd hyn y cyngor gyda chryn her o ran rhoi nifer fawr o becynnau gofal dan ofal gwasanaeth a staff mewnlol dan drefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau. Cafodd y trosglwyddiad hwn ei gynllunio a'i gydlynu'n dda.
- 1.3. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd AGGCC nifer helaeth o bryderon yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd ac Aelodau'r Cynulliad ynghylch ansawdd gwael y ddarpariaeth gwasanaeth gofal cartref ym Mhowys. Mae AGGCC wedi cymryd rhan weithredol wrth roi ymateb amlasiantaeth i'r pryderon hyn, gan sicrhau lles y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cartref. Mae wedi monitro perfformiad yr asiantaethau darparu a phroses barhaus y cyngor o reoli gofal, a chontractio a chomisiynu'r gwasanaethau hyn. Mae'r oruchwyliaeth hon wedi arwain at arolygiad AGGCC o wasanaethau gofal cymdeithasol i

oedolion Powys, yn benodol ei drefniadau ar gyfer darparu gofal cartref, a gynhaliwyd yn ystod mis Mawrth a mis Mai 2015.

- 1.4. Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn a chanfyddiadau'r arolygiad hwnnw ym mis Awst 2015. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan AGGCC www.aggcc.org.uk. Ers hynny, mae'r cyngor wedi darparu cynllun gweithredu manwl ar gyfer AGGCC mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed. Bydd angen i'r camau gweithredu hyn fod yn gyraeddadwy ac yn amserol, gan anelu'n benodol at wella canlyniadau i bobl sy'n derbyn gwasanaeth gofal cartref ar hyn o bryd ac a fydd yn derbyn y gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd y cynnydd a wneir yn unol â'r argymhellion hynny yn cael ei fonitro gan AGGCC trwy gydol 2015-2016.
- 1.5. Cydnabyddodd y staff a'r rhanddeiliaid fod sefydlogi a datblygu'r farchnad gofal cartref a diwylliant y ddarpariaeth yn angenrheidiol ar gyfer datblygu'r gwasanaeth. Mae lansio un pwynt mynediad, ynghyd ag ailstrwythuro gwasanaethau i oedolion mewn amser cymharol fyr, gyda'i phryderon a'i heriau hanfodol, wedi achosi pwysau ychwanegol ar dimau rheoli gofal a'u gallu i ymgorffori'r newidiadau hyn yn effeithiol. Er bod yr agenda hon yn angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn llwyddiannus, mae'n gofyn llawer ac yn uchelgeisiol yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllideb a chapasiti. O ganlyniad, mae'r rhagolygon ar gyfer symud ymlaen yn ansicr. Fodd bynnag, mae AGGCC yn cydnabod bod arwyddion bod pethau'n gwella gan fod y cyngor yn gweithredu'i gynlluniau gweithredu mewnol o ran gwaith gofalwyr, adolygu perfformiad, ac ymgysylltu â darparwyr.
- 1.6. O ran gwasanaethau plant, mae cryfderau ac effeithiolrwydd ei modelau atal ac ymyrraeth gynnwys yn parhau i roi canlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd. Mae effaith newid staff ac absenoldebau wedi achosi i'r gwasanaeth ar bob lefel fod braidd yn fregus, ac mae wedi effeithio ar berfformiad y gwasanaeth mewn rhai meysydd. Mae cyfranogi ac ymgysylltu â phobl ifanc yn parhau i fod yn gryf, ac yn parhau i ddylanwadu ar ddatblygiad y gwasanaeth a'r cyngor mewn ffyrdd gweladwy.
- 1.7. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd yn dilyn y meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd er gwaethaf y ffaith iddo orfod ymateb i heriau sylweddol eraill yn ystod 2014-2015.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Y gwelliannau a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Cyflymu'r broses ddarparu ar gyfer datblygu strategaethau comisiynu cadarn	Mae nifer o strategaethau comisiynu wedi'u datblygu, gan gynnwys anabledd dysgu, llety ar gyfer pobl hŷn, gofalwyr, iechyd meddwl, anableddau corfforol, a nam ar y synhwyrddau.
Datblygu gwasanaeth technoleg gynorthwyol effeithiol	Mae'r cyngor wedi parhau i gael trafferth recriwtio ar gyfer y swydd hon. Bydd datblygu strategaeth benodol â'r nod o yrru hyn ymlaen. Yng ngoleuni'r anawsterau hyn, gweithredodd yr awdurdod lleol, ac mae hyn wedi'i gywiro'n gynnar yn y flwyddyn, a thrwy'r gwaith o ailstrwythuro gofal cymdeithasol i oedolion.
Cyflwyno cynllun gweithlu effeithiol, sy'n ymgorffori'r newidiadau a nodwyd	Mae hwn yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae blaenoriaethau datblygu gweithlu allweddol wedi'u canfod – er enghraifft, recriwtio ar gyfer y gweithlu gofal cartref.
Mae'r cynlluniau ar gyfer gwasanaethau plant yn nodi y bydd gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar yn cael eu cyflwyno er mwyn gwella canlyniadau i blant	Mae hyn yn graidd i holl wasanaethau plant ac yn profi'n effeithiol iawn wrth gefnogi plant a theuluoedd.
Darparu un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau i oedolion a phlant	Dechreuodd un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau i blant ym mis Hydref 2014, ac ar gyfer gwasanaethau i oedolion ym mis Ebrill 2015.
Cwblhau'r adolygiad arfaethedig o'r broses cyn ac ar ôl tendro ar gyfer y gwasanaeth gofal cartref	Cynhaliwyd adolygiad annibynnol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus yn ystod 2014, a chymeradwywyd cynllun gwella gan y cabinet er mwyn ymateb i'r argymhellion.
Amseroldeb adolygiadau blynyddol o ofalwyr maeth	Cadarnhaodd adolygiad AGGCC o'r gwasanaeth maethu fod gwelliant.
Oedi wrth drosglwyddo gofal	Mae'r broses ail-dendro ar gyfer gofal cartref wedi effeithio ar yr oedi wrth drosglwyddo gofal eleni, gan arwain at ostyngiad mewn perfformiad.

Lansio'r gwasanaeth ail-alluogi	Mae penodi ail reolwr sy'n goruchwyllo darparu'r gwasanaeth hwn ar draws y sir yn golygu bod y cyngor erbyn hyn yn cynnal ei wasanaeth ail-alluogi yn y de a'r gogledd.
Canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal	Mae hyn yn ymwneud â chanlyniadau addysgol i blant, ac mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd yn y maes hwn. Mae datblygu rôl cydlynnydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac addysg wrthi'n cael ei ystyried.
Ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r broses gomisiynu ac ail-dendro ar gyfer gofal cartref er mwyn sicrhau diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaeth	Mae adolygiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus yn nodi nifer o argymhellion, ac mewn ymateb, datblygodd y cyngor gynllun gweithredu, gan gynnwys gweithdy ledled y cyngor er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd.
Diogelu oedolion, ei strwythur, ei brosesau, a'i ddarpariaeth	Mae strwythur diogelu diwygiedig wedi'i gyflwyno. Bydd sefydlu ei brosesau a'i systemau'n llwyddiannus yn cael ei fonitro trwy gydol y flwyddyn. Mae swyddogaethau penodai, dirprwyaeth a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi symud i'r gwasanaeth diogelu.
Ymgysylltu'n uniongyrchol gyda gofalwyr sy'n derbyn gwasanaeth	Mae ymgynghoriad bellach wedi'i gwblhau yn rhan o'r gwaith strategaeth i ofalwyr. Mae'r cyngor yn parhau i gomisiynu Gofalwyr Powys, Cross Roads, a nifer o wasanaethau cymorth eraill.
Cyfathrebu gwell rhwng darpariaeth diogelu oedolion a phlant er mwyn sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n briodol	Mae'r cyngor wedi penodi rheolwr diogelu cyffredinol, ynghyd ag arweinydd diogelu plant ac oedolion dros dro.
Proses amserol ar gyfer cynadleddau achos amddiffyn plant	Mae amseroldeb wedi bod yn flaenoriaeth ac mae'n parhau i fod. Gellir gweld gwelliannau.
Rheoli risg ar gyfer plant sy'n dangos ymddygiad peryglus	Mae'r cyngor yn rhan o'r broses datblygu polisiâu a gweithdrefnau rhanbarthol ac wedi cymeradwyo ei bolisi plant ar goll yn ddiweddar.
Darparu meini prawf cymhwysedd	Cyflwynwyd meini prawf cymhwysedd

egllur a'u gweithredu'n gyson	diwygiedig yn 2014-2015.Bydd gweithredu'r meini prawf cymhwysedd a'u heffaith yn cael ei fonitro trwy gydol y flwyddyn i ddod.
-------------------------------	--

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, ynghyd â staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd ymweliadau safle â'r canlynol:
- Gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar mewn gwasanaethau i blant
 - Y tîm 16 oed a hŷn
 - Y tîm integredig cymorth i deuluoedd, ynghyd â'r tîm Dechrau o'r Newydd Gyda'n Gilydd, a'r gwasanaeth cynadledda grwpiau teulu
 - Y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid
 - Y gwasanaeth ail-alluogi
 - Y ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig
- 3.2. Rhwng mis Chwefror a Mai 2015, cynhaliodd AGGCC arolygiad o wasanaethau cymdeithasol i oedolion y cyngor, yn benodol ei drefniadau ar gyfer darparu gofal cartref. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Awst 2015. O ganlyniad, lle bo'n briodol, mae nifer o'r canfyddiadau a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad gwerthuso perfformiad eleni.
- 3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru astudiaeth genedlaethol ar drefniadau'r cyngor ar gyfer cefnogi pobl hŷn i fod yn annibynnol, y tu allan i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dewiswyd Powys yn rhan o'r gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad hefyd o drefniadau llywodraethu'r cyngor i gefnogi'r broses o ddiogelu plant.
- 3.4. Yn ystod y flwyddyn, dilynodd AGGCC ei arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n dangos ymddygiad agored i niwed neu ymddygiad peryglus. Gwelwyd tystiolaeth o nifer o feysydd arfer da, a gofynnwyd i'r cyngor ystyried meysydd eraill i'w gwella. Ymatebodd yn dda, gan lunio cynllun gweithredu manwl, a gwnaed cynnydd da yn unol â hynny.

- 3.5. Cyfarfyddodd AGGCC ag uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn hefyd er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrafod cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Roedd y cyngor yn gymwynasgar o ran eu hymgysylltiad ag AGGCC, ac roeddent yn barod iawn i hwyluso mynediad er mwyn gallu cynnal ymweliadau â safleoedd.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Mae nifer o feysydd penodol i'w gwella wedi'u nodi ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd datblygiad y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y meysydd penodol i fynd ar eu trywydd yn cynnwys:
- Y cynnydd a wneir o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad o wasanaethau cymdeithasol i oedolion ym mis Mawrth/Mai 2015
 - Sefydlogi a datblygu'r farchnad gofal cartref
 - Effaith y toriadau parhaus yn y gyllideb ar y ddarpariaeth gwasanaeth
 - Cynnydd wrth ddatblygu ac ymgorffori'r un pwynt mynediad newydd
 - Cynnydd o ran y trefniadau diogelu newydd i blant ac oedolion

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- 5.1. Mae AGGCC hefyd yn cynnal yr arolygiadau a'r gwasanaethau thematig canlynol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a gallai Powys gael ei ddewis ar gyfer gwaith maes:
- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
 - Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
 - Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Mae'r her o sefydlogi'r farchnad gofal cartref wedi bod yn hollbwysig i'r cyngor. Rhoddodd y tîm rheoli ac adnoddau rheng flaen gryn sylw i roi ymatebion wrth gefn, er mwyn lleihau'r effaith ar bobl o ganlyniad i nifer o ddarparwyr yn methu. Mae angen i'r cyngor bellach gytuno ar ddyfodol darpariaeth gofal cartref, ar ôl penderfynu darparu nifer fawr o becynnau gofal a staff yn fewnol er mwyn sicrhau gofal cyson i bobl sy'n agored i niwed.
- 6.2. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd AGGCC nifer helaeth o bryderon yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, ac Aelodau'r Cynulliad ynghylch safon y ddarpariaeth gwasanaeth gofal cartref. Mae AGGCC wedi cymryd rhan weithredol wrth roi ymateb amlasiantaeth i'r pryderon hyn gan sicrhau lles y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cartref, ac arweiniodd nifer helaeth ohonynt at atgyfeiriadau diogelu. Mae'r arolygiaeth wedi monitro perfformiad yr asiantaethau darparu a threfniadau parhaus y cyngor o reoli gofal, contractio a chomisiynu, a bydd yn parhau i wneud hynny.
- 6.3. Cynhaliodd AGGCC arolygiad o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion Powys ym mis Mawrth a mis Mai 2015, yn benodol ei drefniadau ar gyfer darparu gofal cartref. Canfu'r arolygiad fod y gwaith comisiynu gwasanaethau gofal cartref yn 2013 a 2014 "yn ddiffygiol o ran cysyniad, dylunio, a darpariaeth, a bod dim digon o oruchwyliaeth gan uwch-reolwyr o'i drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Nid oedd y penderfyniadau a wnaed yn ystod yr ymarfer caffael bob amser wedi'u hystyried yn ddigonol - yn enwedig o ran dadansoddi gwir gostau o'i gymharu â'r manteision, ac felly cynaliadwyedd. Nid oedd tystiolaeth bod argaeledd gofal wedi gwella o ganlyniad i'r trefniadau comisiynu; yn wir, cynyddodd yr oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty yn ystod 2014-2015. Arweiniodd y diffyg strategaeth gomisiynu gyffredinol a datganiad o sefyllfa'r farchnad at anallu'r cyngor i gynllunio'n effeithiol ac i bennu ei flaenoriaethau comisiynu a datblygu gwasanaethau. Mae'r cyngor yn cydnabod ei fethiannau ac yn gresynu nad yw rhai defnyddwyr gwasanaeth wedi derbyn ansawdd gwasanaeth y byddai'r cyngor wedi'i ddymuno."
- 6.4. Yn ogystal â hyn, mae'r cyngor wedi parhau i weithredu ei gynlluniau gwella drwy ailstrwythuro a newid pwyslais ei weithlu gofal cymdeithasol i oedolion, gan gryfhau ei strwythur diogelu a'i drefniadau pontio i bobl ag anableddau dysgu ac integreiddio ei strwythur rheoli o fewn

gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r cyngor yn bwriadu datblygu canolfan ddiogelu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a fydd yn cyfuno'r trefniadau diogelu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd angen sefydlu prosesau effeithiol, sgiliau, a chysondeb o ran darparu ac ymateb yn ei wasanaeth ei hun cyn uno â gwasanaethau iechyd.

- 6.5. Mae'r cyngor yn parhau i ymbaratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn 2016, ac mae wedi sefydlu dyddiau datblygu aelodau etholedig er mwyn sicrhau bod aelodau'n cael eu diweddarau ynglŷn â'r ddeddfwriaeth newydd a sut mae'r cyngor yn ceisio galluogi pobl i fod yn annibynnol. Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd y cabinet newid yn y meini prawf cymhwysedd mewn gofal cymdeithasol i oedolion - i 'sylweddol' - er mwyn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill yng Nghymru a pharatoi ar gyfer y meini prawf cymhwysedd cenedlaethol sydd ar ddod. Mae'r cyngor hefyd wedi llwyddo i gael comisiwn ac aildendr ar gyfer ei wasanaethau byw â chymorth yn ystod y flwyddyn, ac arweiniodd hynny at ailgynllunio'r gwasanaethau ar raddfa fawr, gan newid i fod yn wasanaeth ystyrlon sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Nid yn unig yw hyn wedi rhoi arbedion ariannol sylweddol, ond mae'n amlwg ei fod wedi gwella canlyniadau i bobl hefyd.
- 6.6. Mae nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn taliad uniongyrchol wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, o 236 yn 2012-2013 a 287 yn 2013-2014 i 428 yn 2014-2015 - y ffigur tuag at ddiwedd 2015. Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo taliadau uniongyrchol, yn enwedig mewn rhannau o'r sir sy'n aml yn anodd i wasanaethau darparu eu cyrraedd. Mae'r ateb creadigol o gefnogi pobl drwy daliadau uniongyrchol yn un mae'r cyngor yn awyddus i'w archwilio.
- 6.7. Mae nifer yr atgyfeiriadau diogelu oedolion yn ystod y flwyddyn wedi bod yn anodd i'r timau rheoli gofal, gan arwain at oedi wrth gynnal a chau rhai ymchwiliadau, cofnodi cynlluniau diogelu unigol, a gwneud gwaith dilynol amserol. Mae arolygwyr yn adrodd ei bod yn parhau i fod yn ofynnol i wneud gwelliannau o ran amseroldeb, cysondeb a thrylwyrdd y trefniadau diogelu i oedolion ar draws y sir. Mae'r cyngor wedi cydnabod yr angen am adolygiad, ac o ganlyniad mae wedi penodi rheolwr arweiniol ar y cyd ar gyfer y trefniadau diogelu, gan gyfuno'r trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion.
- 6.8. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor wedi penodi cydlynnydd arweiniol ar gyfer diogelu oedolion hyd yma, gan ei fod wedi trefnu gweithiwr asiantaeth dros dro i wneud y gwaith hwnnw ym mis Mawrth 2015. Mae'r swydd hon yn ganolog ar gyfer cefnogi rheolwyr tîm yn eu gwaith diogelu, ac ar gyfer sicrhau bod y gwaith o wneud penderfyniadau ynglŷn â throthwyon yn cael ei wneud yn gyson, a bod goruchwyllo achosion o ddiogelu oedolion yn cael ei sefydlu.

- 6.9. Mae canran yr adolygiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn wedi cynyddu o 67% yn 2013-2014 i 74%, ond mae'n parhau i fod yn is na tharged y cyngor o 80%. Er mwyn gwella'r perfformiad hwn, trefnwyd tîm adolygu penodol o fewn y gwasanaethau i bobl hŷn a swyddog adolygu o fewn y tîm anabledau. Mae'r perfformiad o ran lleihau cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol wedi gostwng o 9.17 am bob 1,000 o bobl 75 oed neu hŷn yn 2013-2014, i 15.56, sydd lawer is na tharged y cyngor o 5.5.
- 6.10. Mae'r cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol o ran ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eleni, o 22 yn 2013-2014 i 336. Mae hyn yn gyson â'r hyn a brofwyd gan y mwyafrif o awdurdodau yng Nghymru, ac mae'n ganlyniad uniongyrchol i ddyfarniad y Goruchaf Lys, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.11. Mae'r cyngor wedi sefydlu bwrdd arweinyddiaeth iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan y cyngor, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector. Mae hyn, yn ogystal â'i byrddau partneriaeth o randdeiliaid ar gyfer anabledd corfforol, nam ar y synhwyrâu, iechyd meddwl, ac anabledd dysgu, ynghyd â'r llwybr gofal integredig ar gyfer pobl hŷn, yn parhau i yrru'r agenda integredig ar gyfer y cyngor.
- 6.12. Cafodd datblygiad un pwynt mynediad, dan yr enw Llinell Uniongyrchol Powys, ei sefydlu gyda lansiad yr ochr gwasanaethau i oedolion ym mis Ebrill 2015, yn dilyn sefydlu gwasanaethau i blant ym mis Hydref 2014. Roedd yr adborth cychwynnol cynnar gan ddefnyddwyr, arolygwyr, rhai timau gwaith cymdeithasol, a darparwyr gwasanaethau ynghylch gwasanaethau i oedolion yn gymysg. Roedd problemau amlwg wedi'u nodi ynghylch gallu a gwybodaeth y staff yn y gwasanaeth, ac amseroedd ymateb gwael. Mae'r cyngor wedi cael trafferth recriwtio rheolwr tîm, ac mae gweithiwr asiantaeth dros dro yno ar hyn o bryd. Os yw'r cyngor am fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), bydd angen iddo sicrhau bod y gwasanaeth rheng flaen hanfodol hwn yn drylwyr ac yn ymatebol i geisiadau pobl am gymorth a chynghor.
- 6.13. Mae strategaeth technoleg gynorthwyol ddrafft ar y cyd bellach wedi'i llunio, ac mae safleoedd dangos addas yn cael eu trefnu. Bydd y gwasanaeth hwn yn ddylanwadol wrth fwrw ymlaen â'r strategaeth atal, ac mae wedi bod yn faes i'w wella ar gyfer y cyngor am rai blynyddoedd.

- 6.14. Adolygodd AGGCC y cyfleuster gofal canolraddol integredig newydd yn Llanfair-ym-Muallt, sydd wedi'i gofrestru'n gartref gofal. Mae'r cyfleuster hwn eisoes wedi gallu dangos canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y bobl sy'n cael budd o'r dull integredig o atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'r ffaith bod ystod o wasanaethau iechyd a gofal ar gael i bobl ar un safle eisoes wedi profi'n werthfawr. Erbyn hyn, mae angen gwerthuso ei berfformiad er mwyn canfod pa un a yw'r gwasanaeth hwn yn bodloni ei nodau gwreiddiol ac i sicrhau bod cymorth gofal cymdeithasol yn cael ei roi yn rheolaidd.
- 6.15. Adolygodd AGGCC wasanaeth ail-alluogi'r cyngor yn ystod 2014 hefyd. Mae'r tîm bellach wedi datblygu'n wasanaeth derbyn llawn, a chyflawnodd ei achrediad ISO9001 am wasanaethau a phrosesau o ansawdd. Dangosodd y gwasanaeth yn y de yn glir y canlyniadau cadarnhaol y mae wedi bod yn eu cael ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cafodd y gwaith ehangach o gyflwyno gwasanaethau ail-alluogi ar draws y sir ei effeithio'n sylweddol yn y gogledd gan yr angen i ddarparu pecynnau gofal tymor hir ar gyfer unigolion yn dilyn y problemau sy'n gysylltiedig ag ymarfer caffael a thendro am ofal cartref, a therfynu'r contract gyda darparwr mawr. Cafodd y newid i fodel derbyn llawn ei gwblhau yn nhymor hydref 2014. Ym mis Ebrill 2015, roedd yr angen i ymateb o ran darparu gofal tymor hwy pan oedd darparwr yn y de yn tynnu ei wasanaethau hefyd yn cael effaith sylweddol bosibl ar y gwasanaeth ailalluogi. Fodd bynnag, roedd gweithredu dull a oedd wedi'i drefnu a'i gydlynyn'n dda ar draws y cyngor wedi sicrhau y gallai'r gwasanaeth ailalluogi barhau i ddarparu ei amcanion atal ac ymyrryd yn fuan, yn ogystal â chyfrannu at yr ymateb wrth gefn yn wyneb methiant darparwr gofal cartref.
- 6.16. Caiff y ddarpariaeth gadarnhaol o ofal i bobl ac effeithiolrwydd y gwasanaeth ailalluogi eu dangos gan y ffaith bod canran y cleientiaid sy'n cael cymorth yn y gymuned sy'n 65 oed neu hŷn wedi gwella o 81% y llynedd i 86%. Mae cyfradd y bobl hŷn sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o bobl 65 oed neu hŷn wedi gwella o 71% y llynedd i 73%. Mae canran y cleientiaid nad ydynt yn derbyn unrhyw gymorth parhaus yn dilyn ailalluogi wedi cynyddu o 64% y llynedd i 69%, ac mae canran y cleientiaid ailalluogi lle cyrhaeddwyd canlyniadau ar ddiwedd y flwyddyn yn 84%, yn uwch na'r targed o 80%.
- 6.17. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd gyda'r bwrdd iechyd o ran ei ymateb integredig i asesu, ac mae'n dechrau dull sengl o asesu anghenion pobl hŷn. Dylai'r fframwaith asesu sengl a gynhelir gan weithlu wedi'u hyfforddi ar y cyd symleiddio'r broses o gael gwasanaethau iechyd a chymorth gofal cymdeithasol a gwella canlyniadau i bobl.

Meysydd o gynnydd

- Ailstrwythuro a newid pwyslais ei weithlu gofal cymdeithasol i oedolion

- Sefydlu ei system dyletswydd argyfwng
- Gweithredu'r meini prawf cymhwysedd 'sylweddol'
- Datblygu'r gwasanaeth ailalluogi ar draws y sir

Meysydd i'w gwella

- Gwerthusiad a pherfformiad y ganolfan gofal canolraddol integredig a chydweithio'r cyngor gyda gwasanaethau ieuchyd
- Sefydlu gwasanaeth gofal cartref effeithiol a chynaliadwy
- Perfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal
- Recriwtio i'r tîm diogelu parhaol
- Recriwtio staff parhaol er mwyn creu cyswllt cyntaf cadarn ac effeithiol i bobl Powys

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.18. Mae gwasanaethau plant yn parhau i ddarparu ac adeiladu ar eu cryfderau o ran ymgysylltu, cyfranogi, ac atal ac ymyrraeth gynnar gyda phlant a theuluoedd. Mae'r cyngor wedi cryfhau ei wasanaeth ieuchyd meddwl i blant drwy benodi seicolegydd. Mae mynediad at y gwasanaeth wedi gwella, ond mae angen cytuno o hyd ar feini prawf ynglŷn â throthwyon ar gyfer cael gwasanaeth ym mhob tîm. Mae gwasanaethau i blant wedi cael eu heffeithio gan nifer o newidiadau ac absenoldebau staff a rheolwyr eleni.
- 6.19. Mae gwasanaeth mabwysiadu'r cyngor bellach yn rhan o wasanaeth cydweithredol rhanbarthol canolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r cyngor yn nodi arwyddion cadarnhaol i'r dull hwn ac yn monitro'r canlyniadau ar gyfer plant Powys yn ofalus. Mae'r Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn parhau i gryfhau a datblygu. Mae'r cyngor yn defnyddio arbenigedd y bartneriaeth wrth gefnogi caffael a chomisiynu.
- 6.20. Mae CYSUR, y bwrdd diogelu rhanbarthol, bellach wedi'i sefydlu, ac mae trefniadau rhanbarthol a lleol yn cael eu hymgorffori. Cafodd dwy farwolaeth plentyn eu hystyried gan y bwrdd ar gyfer cynnal adolygiadau o arferion gwasanaethau plant, ond nid oedd yr un ohonynt yn bodloni'r

trothwy ar gyfer adolygu. Fodd bynnag, mae adolygiad rheolwyr yn cael ei gynnal ar gyfer un achos.

- 6.21. Mae ymgysylltiad a chyfranogiad y cyngor gyda phlant a phobl ifanc yn parhau i fod yn gryf ac effeithiol gyda lansiad ei fwrdd rhianta corfforaethol iau ym mis Ebrill, sy'n sicrhau bod materion sy'n effeithio ar bobl ifanc yn cael eu bwydo i mewn i'r grŵp rhianta corfforaethol. Ceisiwyd eu barn hefyd yn rhan o broses herio fframwaith adrodd blynyddol y cyngor. Mae'r bwrdd diogelu iau - 'Eat Carrots: Be Safe from Elephants' - yn parhau i fynd o nerth i nerth, ac mae wedi bod yn allweddol wrth gefnogi datblygiad y dull diogelu iau rhanbarthol.
- 6.22. Mae perfformiad gwasanaethau plant wedi gostwng o ran asesiadau cychwynnol, o 98% yn 2013-2014 i 89% eleni. Mae nifer cyfartalog y diwrnodau ar gyfer cynnal asesiadau cychwynnol hwyr wedi cynyddu o naw diwrnod y llynedd i ychydig llai nag 14 diwrnod eleni. Mae nifer yr asesiadau craidd a gynhaliwyd o fewn 35 niwrnod hefyd wedi gostwng, o 93% y llynedd i 84% eleni, gyda chyfraddau ail-atgyfeirio yn sefydlog ar 30% ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn gwella ychydig ar 98%. Cyflawnodd y cyngor 100% ar gyfer cynnal adolygiadau amddiffyn plant.
- 6.23. Mae newidiadau staff ac absenoldebau ar lefel rheolwyr a gweithwyr cymdeithasol wedi effeithio ar wasanaethau plant drwyddo draw, gan arwain at ddibynnu mwy ar staff dros dro a staff asiantaeth, sy'n amlwg wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn perfformiad o ganlyniad. Ar gyfer nifer o feysydd, mae'r cyngor yn cydnabod bod y gwasanaeth wedi disgyn y tu allan i chwarterel uchaf Cymru o ran dangosyddion perfformiad, ac mae bellach yn fater o flaenoriaeth i'r cyngor roi sylw iddynt. Mae'n cydnabod y bydd y pwysau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau plant yn gwneud cynnal gwelliannau yn her.
- 6.24. Mae gwasanaeth cyfranogi effeithiol iawn yn cynnig a chefnogi pobl ifanc trwy weithgareddau gwaith grŵp a thrwy'r grŵp rhianta corfforaethol iau newydd. Mae'r swyddog a thîm cyfranogi yn awyddus i sicrhau bod pob agwedd ar wasanaethau plant yn ymgorffori cyfranogi yn ei gwaith. Mae'r cyngor yn sicrhau y bydd y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cael eu gweithredu a'r nod barcud yn cael ei gyflawni ar draws gwasanaethau plant.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.25. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd AGGCC wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar y cyngor, yn benodol ei dîm integredig cymorth i deuluoedd, y tîm Dechrau o'r Newydd Gyda'n Gilydd, y gwasanaeth cynadledda grwpiau teulu, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, a'r tîm 16 oed a hŷn.

- 6.26. Mae gallu'r tîm integredig cymorth i deuluoedd i weithredu wedi'i gyfyngu oherwydd absenoldebau staff a swyddi gwag, ac ar adeg yr adolygiad dim ond un gweithiwr llawn amser oedd ar gael. Mae'r tîm Dechrau o'r Newydd Gyda'n Gilydd a'r tîm cynadledda grwpiau teulu bron yn llawn. Er hyn, mae'r ddau dîm yn gallu dangos gwasanaethau hyblyg ac effeithiol. Mae'r dull yn dechrau cael ei fabwysiadu gan dimau eraill o ran newid eu harferion gwaith gyda phlant a theuluoedd. Yn ôl pob sôn, mae perthynas dda gyda meysydd gwasanaeth eraill, ac mae gweithwyr bellach yn dechrau cael gwell dealltwriaeth o fewn y timau hynny ynglŷn â'r trothwyon ar gyfer gwneud atgyfeiriadau i dimau integredig cymorth i deuluoedd/Dechrau o'r Newydd Gyda'n Gilydd, a'r angen am well gwybodaeth ynglŷn â gwneud atgyfeiriadau. Mae'r broses hon o godi ymwybyddiaeth o waith y gwasanaeth hwn wedi cynyddu atgyfeiriadau, ac mae'r gwaith o adeiladu pontydd a gwella cyfathrebu yn datblygu.
- 6.27. Mae'r gwasanaeth Dechrau o'r Newydd Gyda'n Gilydd yn cyflwyno dull rheoli risg sy'n dda ac yn bendant, gyda chynllunio cadarnhaol a nodau wedi'u gosod. Nid yw'r dulliau o werthuso'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud, a'r canlyniadau mae teuluoedd yn eu cael gyda chymorth y tîm, wedi'u datblygu'n llawn eto. Cydnabyddir hefyd bod yr heriau presennol o ran datblygu gwasanaethau yn ymwneud â gallu, pwysau ar y gyllideb, baich gwaith, a'r angen i ymgorffori'r model o fewn y timau ac arferion gwaith cymdeithasol.
- 6.28. Mae gweithwyr y gwasanaeth cynadledda grwpiau teulu yn ymwybodol o'r angen i ehangu llwybrau atgyfeirio i'r gwasanaeth, a phwysigrwydd eu rôl o ran gwaith atal a'r angen i wneud atgyfeiriadau'n gynharach i'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr yn y timau hyn yn amlwg yn frwdfrydig ac ymroddedig i'r model maent yn ei ddefnyddio, ac maent yn gallu gweld y byddai ei ddefnyddio ar lefel ehangach yn rhoi manteision sylweddol i dimau plant eraill yn yr adran drwyddi draw. Mae'r gweithwyr yn dangos lefel uchel o sgiliau, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, ac mae manteision defnyddio arferion gwaith cymdeithasol da yn amlwg iawn.
- 6.29. O fewn y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, mae canolfan Powys yn gweithio'n effeithiol iawn o ran darparu ymyrraeth amserol ac effeithiol. Mae'r dull amlasiantaeth yn rhoi canlyniadau gweladwy i bobl ifanc. Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar cynhwysfawr ac effeithiol iawn ar waith.
- 6.30. Mae nifer y gorchmynion statudol yn parhau i ostwng. Fodd bynnag, mae'r effaith ar y tîm sy'n deillio o leoli plant yn y sir gan awdurdodau lleol eraill yn sylweddol. Mae diffyg asesuadau cyfredol gan yr awdurdod lleol sy'n lleoli, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn rhwystr o ran amseroldeb a'r lefel o gymorth ac ymyrraeth a ddarperir. Mae cydweithio da rhwng y gwasanaeth prawf a'r gweithwyr cymdeithasol yn cael ei adrodd.


- 6.31. Mae'r cyngor wedi rhoi lefel dda o adnoddau i'r gwasanaeth. Mae hyfforddiant a chymorth staff wedi'u datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r broses o werthuso gwaith y gwasanaeth o hyd. Mae cysylltiadau da wedi'u sefydlu gyda Phrifysgol Aberystwyth o ran gwneud gwaith ymchwil, ac mae hyn yn cefnogi datblygiadau'r gwasanaeth ac effeithiolrwydd ymyrraeth.
- 6.32. Mae'r tîm 16 oed a hŷn yn cael ei gefnogi gan wasanaeth Cefnogi Pobl a Thai, ac, o'r herwydd, mae'n mwynhau perthynas waith gynhyrchiol gyda'r bobl hynny, yn enwedig o ran tai, lle mae nifer y problemau i bobl ifanc yn y maes hwn wedi gostwng dros y blynyddoedd. Bu'r cynllun hyfforddeiaeth ar gyfer pobl ifanc, lle mae'r cyngor fel cyflogwr yn rhoi cymorth i bobl ifanc ennill sgiliau a phrofiad mewn sefyllfaoedd gwaith, yn arbennig o lwyddiannus, ac felly hefyd y gwaith gyda'r tîm dysgu a datblygu corfforaethol o ran sicrhau lleoliadau hyfforddi.
- 6.33. Datblygiad arwyddocaol arall i gefnogi pobl ifanc yw'r ddarpariaeth 'Lloches Dros Nos', sy'n gallu rhoi cartref i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gofal seibiant, ac ar gyfer argyfyngau. Mae hwn yn adnodd hanfodol. Mae'n rhedeg ochr yn ochr â'r cynllun llety â chymorth sydd wedi'i hen sefydlu, lle gall teuluoedd sy'n derbyn plant ddarparu llety tymor hir i bobl ifanc hyd at 21 oed. Mae angen i'r gwasanaeth hwn gynyddu nifer y teuluoedd sy'n derbyn plant er mwyn ateb y galw am y ddarpariaeth hon. Yn ystod y flwyddyn nesaf, gobeithir y bydd mwy o deuluoedd yn cael eu recriwtio ar gyfer y cynllun.
- 6.34. O fewn yr un pwynt mynediad newydd, mae heriau Llinell Uniongyrchol Powys yn parhau i fod ynglŷn â phenodi rheolwr tîm sydd â phrofiad addas, ac ni ystyrir bod y system ffôn bresennol yn addas i'r diben nac yn ddigon trylwyr. Mae gwahaniaethau diwylliannol o fewn timau staff yn ofynnol er mwyn galluogi'r system i weithio'n effeithiol. Nid oes rheolwr parhaol ar gael, ac o ganlyniad mae diffyg cydnerthedd a thrylwyrdd yn sgil hynny i fodloni'r gofynion a'r disgwyliadau. Mae angen defnyddio'r un pwynt mynediad yn gyson. Mae angen gwerthuso a rhoi sylw i'r pryderon hyn yn ymwneud â staffio a systemau.

Plant sy'n derbyn gofal

- 6.35. Mae plant yn cael eu hannog i gael gwell dealltwriaeth o'r risgiau sy'n eu hwynebu a llais yn y strategaethau sydd ar waith i leihau'r risgiau hynny. Mae gweithredu model risg Gwynedd yn cefnogi'r broses hon. Mae mwy o hyfforddiant staff a sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi'u trefnu er mwyn ymgorffori ac egluro'r model i'r staff.
- 6.36. Eleni, am y tro cyntaf mewn tair blynedd, bu cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn 2014-2015. Yn ystod dadansoddiad cyntaf y cyngor, gwelwyd bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at y cynnydd hwn, ac mai'r ffactor mwyaf oedd y cynnydd mewn nifer yr atgyfeiriadau cam-drin domestig gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae cynghorau eraill yn ardal

Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau cam-drin domestig hefyd, ond nid i'r un graddau â Phowys. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod cofrestriadau achosion o amddiffyn plant wedi gostwng ym mis Ebrill 2015.

- 6.37. Gwnaeth y cyngor adolygu ac ailstrwythuro ei rwydwaith gofal maeth mewnol, sydd wedi cael ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, a rhaglen hyfforddi ddiwygiedig i ddatblygu gofalmwr presennol er mwyn diwallu anghenion y plant hyn hefyd. Yn ystod arolygiad AGGCC o'r gwasanaeth hwn, nodwyd llawer o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant a'r gefnogaeth dda mae'r cyngor yn ei ddarparu ar gyfer gofalmwr maeth.



- 6.38. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi sefydlogi. Mae effeithiolrwydd gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar y cyngor wedi bod yn allweddol wrth gyflawni hyn. Mae'n bleser nodi ymrwymiad y cyngor i'r strategaeth atal ac ymyrraeth gynnar, er gwaethaf pwysau sylweddol. Roedd gan bob plentyn a ddaeth i dderbyn gofal gynllun gofal, ac roedd 100% o'r holl adolygiadau wedi'u cynnal o fewn yr amserlen.

Meysydd o gynnydd

- Bwrdd rhianta corfforaethol iau
- Datblygiad parhaus cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc
- Y ddarpariaeth 'Lloches Dros Nos'

Meysydd i'w gwella

- Perfformiad o ran gwasanaethau plant o fewn yr asesiad

- Sefydlogi'r gweithlu mewn gwasanaethau plant
- Ymgorffori'r model risg Gwynedd newydd ar draws y timau

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Cynhaliodd AGGCC adolygiad o wasanaethau cymdeithasol i oedolion Powys ym mis Hydref 2011, ac archwiliad dilynol o'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ym mis Mawrth 2013. Gwnaed nifer o argymhellion, a thynnwyd sylw at yr angen cynyddol bwysig i foderneiddio'r dull a ddefnyddir gan y cyngor wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn yr adroddiadau hyn. Un thema a welwyd trwy gydol yr arolygiadau hyn oedd y trosiant uchel o uwch-reolwyr, a'r ddibyniaeth ar staff dros dro mewn swyddi allweddol. Yn ogystal, nodwyd bod y pwynt mynediad unigol a fwriadwyd yn faes i'w ddatblygu yn 2013. Mae'r hinsawdd ariannol yn golygu bod y newidiadau sydd eu hangen bellach yn fwy heriol ac yn fwy pwysig, gan ei bod yn rhaid i Gyngor Sir Powys leihau ei gyllideb gyffredinol gan £20 miliwn yn 2014-2015, a £40 miliwn dros dair blynedd.
- 7.2. Yn 2014-2015, roedd yn ofynnol i wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion wneud arbedion o £2.4 miliwn, a chyrhaeddwyd y targed o £2.36 miliwn o arbedion. Mae'r gofyniad arbedion sy'n weddill i'w drosglwyddo i 2015-2016. Mae'r arbedion hyn wedi golygu bod adolygiadau strategol o'r ddau wasanaeth bellach yn cael eu cynnal. Mae'r gostyngiad parhaus mewn gwasanaethau sy'n bodoli yn risg uchel, gan fod gwasanaethau'n dibynnu ar ei gilydd yn y cyngor drwyddo draw. Mae'r toriadau yn y gyllideb ar draws pob maes yn y cyngor yn effeithio ar feysydd gwasanaeth cysylltiedig, yn enwedig o ran gallu gwasanaethau oedolion a phlant i ddarparu gwasanaeth diogel. O ganlyniad, mae bellach yn ofynnol i gynnal adolygiad o ba wasanaethau ddylai gael eu darparu a pha rai ellir eu darparu.
- 7.3. O ganlyniad i'r problemau a godwyd yn sgil gweithredu ei ymarfer comisiynu, gwnaeth y cyngor gomisiynu adroddiad annibynnol trwy Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, a oedd yn canolbwyntio ar gronoleg digwyddiadau ar adeg comisiynu a chaffael gwasanaethau gofal cartref yn 2013. Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Rhagfyr 2014, sy'n disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd gan y cyngor, ac mae'n gwneud nifer o argymhellion sydd wedi cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu mae'r cyngor yn ei roi ar waith ar hyn o bryd.

- 7.4. Ers hynny, mae AGGCC wedi cynnal arolygiad arall yn canolbwyntio ar bennu pa un a yw trefniadau'r cyngor ar gyfer comisiynu a chontractio gofal cartref yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Roedd hefyd yn ystyried a oedd canlyniadau gofal a chymorth ar gyfer unigolion yn cael eu heffeithio mewn ffordd andwyol, a hefyd a oedd unrhyw effaith ar lwybrau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion - er enghraifft, oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty.
- 7.5. Cynhaliodd AGGCC arolygiadau o asiantaethau sy'n darparu gwasanaeth gofal cartref ym Mhowys. Er bod yr arolygiadau hyn yn ymwneud yn bennaf ag ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth i bobl sy'n agored i niwed, casglwyd tystiolaeth yn ymwneud â'r cymorth, y berthynas, a'r gwasanaeth rheoli gofal a ddarperir i'r darparwr a'i ddefnyddwyr gwasanaeth gan y cyngor. Roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar ansawdd eu perthynas gyda'r gweithwyr cymdeithasol, ac roeddent yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses benderfynu yn ymwneud â'u gofal a'u cymorth. Roedd darparwyr yn teimlo'n rhwystredig gyda'r anghysondeb o ran amser derbyn asesiadau a gwybodaeth arall angenrheidiol er mwyn iddynt ddarparu gwasanaeth o ansawdd i ddefnyddwyr newydd. Roedd nifer o ddarparwyr a defnyddwyr yr un mor siomedig â pherfformiad yr un pwynt mynediad newydd o ran argaeledd, ymateb ac amseroldeb, a oedd wedi bod ar waith ers 1 Ebrill.
- 7.6. Mae AGGCC yn cydnabod bod cyflymder y newidiadau wedi cynyddu ers penodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol parhaol ym mis Gorffennaf 2013, a phenaethiaid gwasanaeth ym mis Awst a mis Hydref 2013, yn y drefn honno. Maent bellach yn wynebu amserlen heriol ac uchelgeisiol ar gyfer moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol ym Mhowys, ac mae methiant y fframwaith comisiynu ar gyfer gofal cartref, ynghyd â'r arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol, wedi gwneud hyn yn anos. Mae'r rhagolygon felly yn ansicr, ac mae cwestiynau o hyd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun gostyngiadau o ran cyllid a pharatoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fodd bynnag, mae arwyddion bod pethau'n gwella, ac mae'r cyngor yn gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus.
- 7.7. Mae gwasanaethau plant wedi gweld newidiadau staffio sylweddol o fewn yr uwch-dîm rheoli ac ar lefel y rheolwr tîm gweithredol hefyd. Mae hyn wedi rhoi her a chyfle i'r gwasanaeth, a chydabyddir ei fod wedi achosi i rannau o'r gwasanaeth fod braidd yn fregus. Mae un effaith o hyn yn cael ei hadlewyrchu yn y dangosyddion perfformiad ar gyfer eleni.
- 7.8. Mae'n amlwg bod anawsterau wrth recriwtio ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, ac ochr yn ochr â'r rhagamcanion demograffig, mae hyn yn annhebygol o wella. Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen brys i weithio'n agos gyda darparwyr er mwyn datblygu mentrau ar gyfer denu gweithlu i Bowys. Bydd pwysigrwydd ei wasanaethau atal ac ymyrryd yn

fuan, ac yn benodol ailalluogi a datblygu darpariaeth technoleg gynorthwyol effeithiol ac amlwg, yn golygu y bydd angen iddynt fod yn rhan o unrhyw ddatrysiad yn y dyfodol.

- 7.9. Mae'r strategaethau comisiynu ar y cyd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'u cwblhau ar gyfer anabledd dysgu, pobl hŷn a gofalwyr, a bydd yn destun ymgynghoriad o fis Ebrill 2015, cyn iddynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd y strategaeth llety i bobl hŷn, y strategaeth anabledd corfforol, a'r strategaeth camddefnyddio sylweddau yn cael eu cwblhau yn 2015. Mae gan y cyngor nifer o'i strategaethau comisiynu ei hun ar ffurf drafft, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau plant, technoleg gynorthwyol ar y cyd, pobl hŷn, a gofal integredig. Mae'r cyngor wedi cryfhau ei gapasiti i gomisiynu drwy gyflwyno rheolwr comisiynu strategol dros dro, sy'n cynorthwyo'r uwch reolwr comisiynu strategol ac sydd wedi goruchwyllo newidiadau a datblygiadau cadarnhaol o ran dull ac arferion comisiynu'r cyngor. Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod digon o arbenigedd a chapasiti yn cael ei gynnal.
- 7.10. Mae'r cyngor yn arbennig o ymwybodol o'r angen i alinio a datblygu ei feysydd gwasanaeth yn barod i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac mae hefyd yn cynllunio ar gyfer cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae pob un o'i gynlluniau trawsnewid ei hun a'r rhai a gynlluniwyd gyda'i bartneriaid yn seiliedig ar y newidiadau sydd i ddod. Mae hyn, ynghyd â rhagamcanion poblogaeth y cyngor ei hun, yn awgrymu y bydd cynnydd o 140% o ran pobl 85 oed a hŷn rhwng 2015 a 2035, a chynnydd o 50% dros yr un cyfnod o ran pobl 75-84 oed. Mewn ymateb i hyn, bydd angen i brosesau cwrpasu a chynllunio'r cyngor yn y dyfodol gydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau i oedolion, nid yn unig ar hyn o bryd, ond hefyd yn y blynyddoedd i ddod, a sut y gall ddarparu ei wasanaethau.
- 7.11. Mae gan y cyngor Grŵp Rhianta Corfforaethol sydd wedi datblygu'n dda ac sydd wedi'i hen sefydlu, ac mae'n parhau i gynnal diwrnodau datblygu ar gyfer aelodau etholedig lle bu presenoldeb a derbyniad da.
- 7.12. Yn ei adolygiad o drefniadau'r cyngor ar gyfer cefnogi diogelu plant, a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2014, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli'r cyngor yn ddigonol o ran bodloni ei gyfrifoldebau diogelu, y gwaith o fonitro a gwerthuso'r cyfrifoldebau hynny, ac yn olaf y gwaith o adnabod a gweithredu yn dilyn gwerthusiad, ond y gellid gwneud rhai gwelliannau.

Meysydd o gynnydd

- Sefydlu uwch-dîm rheoli parhaol newydd o fewn gwasanaethau i oedolion a phlant
- Datblygu cyfres o strategaethau comisiynu
- Newid i strwythur staffio mwy cyson a chydlynol ar draws y sir

Meysydd i'w gwella

- Datblygu mentrau recriwtio ar gyfer y gweithlu
- Gweithredu a gwireddu rôl technoleg gynorthwyol o ran cynorthwyo pobl yn eu cartrefi
- Gwneud cytundeb ffurfiol a chyflwyno'i strategaethau comisiynu